

Crynodeb o Gofnodion y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth (AAP) Cyfarfod 8 – 9 Ebrill 2018

Pafiliwn Llywodraeth Cymru, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd, Llanfair-ym-Muallt

Yn bresennol

Lionel Walford – Cadeirydd
Peter Rees – Aelod Annibynnol
Steve Hughson – Aelod Annibynnol
Darren Williams – FUW
Will Prichard – NFU
Ivan Monckton – UNITE
Bryan Godsell – UNITE
Paula Whitfield – Llywodraeth Cymru
Ryan Davies – Llywodraeth Cymru
Karla Price – Llywodraeth Cymru

Eitem 1 – Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod

Eitem 2 – Y Newyddion Diweddaraf gan y Cadeirydd

Nododd y Cadeirydd nad oedd y canllawiau ar gyfer Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018 wedi'u cyhoeddi eto ac nad oeddent chwaith yn barod i'w cyhoeddi - roedd y Gorchymyn Cyflogau wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2018. Nododd y Panel ei anfodlonrwydd ynghylch yr oedi oherwydd roedd wedi bwriadu cyhoeddi'r Gorchymyn a'r canllawiau ar yr un diwrnod. Fodd bynnag, derbyniwyd bod angen bodloni amserlen ddeddfwriaethol safonol y Llywodraeth ac ni ellid cyhoeddi'r Canllawiau tan fod y broses hon wedi dod i ben yn foddhaol.

Roedd y Panel wedi gofyn yng Nghyfarfod 6 a oedd yn bosibl i'r Arolwg o Fusnesau Ffermio gynnwys cwestiynau ychwanegol am lafur amaethyddol. Roedd yr ymateb a ddaeth i law gan Lywodraeth Cymru yn amhendiant ac roedd hynny'n destun pryder. Nid oedd y Panel yn cytuno â honiad y papur bod y cwestiynau arfaethedig yn gymhleth neu'n sensitif. A ellid newid Cyfrifiad Mehefin yn lle oherwydd roedd llawer mwy wedi ymateb iddo? Nododd y Cadeirydd fod gan arolwg Mehefin broffil gwahanol iawn.

Eitem 3 – Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod (15 Chwefror 2018)

Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Eitem 4 - Moderneiddio Gorchmynion Cyflogau

Trafodwyd amrywiol feysydd:

- Gweithwyr Gwirfoddol – gan nad ydynt yn cael eu talu, nid oedd y Panel wedi awgrymu darpariaeth i'w gynnwys yn y Gorchymyn. Cytunwyd y dylid ychwanegu brawddeg yn y canllawiau i'w ystyried i gyfeirio darllenwyr i Ganllawiau Cyllid a Thollai Ei Mawrhydi.
- Prentisiaethau (Erthygl 11 o'r Gorchymyn). Mae'r Erthygl yn nodi y bydd Prentisiaid o fewn y 12 mis cyntaf ar ôl cychwyn y gyflogaeth honno yn llai na 19 oed". Cwestiynwyd hyn oherwydd gall Prentisiaid fod yn hŷn na 19 oed yn eu blwyddyn gyntaf. Caiff Prentisiaethau o'r fath eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru. Cytunwyd y byddai cyngor cyfreithiol yn cael ei ofyn amdano ar y mater hwn.
- Cytunodd y Panel i'r egwyddor y gellid cyflwyno Gorchmynion yn y dyfodol yn llai aml na phob blwyddyn. Bwriadwyd trafod hyn yn fanylach yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2018. Bwriadwyd cynnig Gorchymyn ar gyfer 2019 ond byddai hynny'n cael ei gadarnhau neu ei wrthod yn y cyfarfod hwnnw.
- Gwnaed cynnig i newid y Gorchmynion i un isafswm ar gyfer pob cyfradd ac oed gweithwyr gyda thaliadau ychwanegol yn cael eu rhoi mewn perthynas â sgiliau. Roedd hyn yn debyg i Orchmynion Cyflogau yn yr Alban. Cytunodd y Panel fod angen ystyried hyn ymhellach a byddai'r Cadeirydd yn gofyn am gyfarfod gyda chydweithwyr yn yr Alban i edrych ar effaith a sail resymegol y penderfyniadau a wnaed yno ar ddull tebyg.

Penderfynwyd trafod y materion eraill a godwyd yng Nghyfarfod 7 yng nghyfarfod mis Mehefin.

Eitem 5 – Unrhyw Fater Arall

Mae Adroddiad Blynyddol y Panel yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. Bydd yn cael ei anfon at aelodau'r Panel a gofynnir iddynt ei gymeradwyo ac am eu sylwadau maes o law.